

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth o fewn y pythefnos nesaf. Dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau.

Cronfa Gronyn

O'r cychwyn cyntaf pwysleisiwyd mai rhan o genhadaeth eglwysi'r Ofalaeth hon fyddai *Gronyn* yn wythnosol ac y byddai ar gael i bawb yn rhad ac am ddim. Ond gan fod amryw wedi mynegi awydd i'n helpu gyda'r gost o'i argraffu penderfynwyd rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn y byddem yn derbyn rhoddion ariannol at y gwaith hwn.

Er mai ar ddechrau'r flwyddyn newydd fel hyn yn unig y byddwn yn tynnu sylw at hyn, mae modd cyfrannu at gostau *Gronyn* unrhyw bryd, beth bynnag sydd fwyaf hwylus. Pwysleisiwn unwaith eto nad ydym yn disgwyl i neb gyfrannu ond ein bod yn ddiolchgar wrth reswm am bob rhodd.

Gellir rhoi'r cyfraniad mewn amlen i'r Gweinidog os dymunwch (gan nodi 'Gronyn' ar yr amlen).

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn *Gronyn*. Felly, os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 10

2.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng ngofal yr aelodau

Ionawr 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 17: Gwasanaethir yn yr oedfaon am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymun yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ionawr 12: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 17: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 17: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 17: Cynhelir Oedfa yn Ysgoldy Maesygroes am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg. W. H. Pritchard, Trearddur.

CARMEL

Nos Wener, Ionawr 15: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 17: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Rhagfyr 4: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ionawr 17

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



BEIBL BYW

Dri mis yn ôl bu farw'r nofelydd o Sweden, Henning Mankell, sy'n fwyaf cyfarwydd am ei gyfres o nofelau am y ditectif fflugennol Kurt Wallander. Roedd Mankell wedi dod â'r gyfres i ben ers tro, er mawr siom i bawb a oedd wedi cael blas ar y llyfrau hynny. Yr unig oibaith o bosibl oedd y byddai Mankell yn penderfynu ysgrifennu rhagor am ferch Wallander, a oedd erbyn diwedd y gyfres wedi dilyn ei thad i rengoedd ditectifs Ystad. Ond gyda marwolaeth y nofelydd diflannodd pob gobaith am gael darllen unrhyw beth newydd am Wallander.

Neu dyna a dybiwn nes i mi daro ar lyfr newydd sbon am Wallander y dydd o'r blaen. Ac er mai stori gymharol fyr yn hytrach na nofel lawn oedd hon roedd yn dipyn o syrpreis ac yn beth amheuthun i'w ddarllen mewn awr neu ddwy. Stori a gyhoeddwyd yn yr Iseldiroedd rai blynyddoedd yn ôl oedd hon, a Mankell wedi penderfynu ei hail gyhoeddi cyn ei farwolaeth. Newydd ddod o'r Wasg y mae'r cyfieithiad Saesneg. Gyda'r stori hon, daeth un cyfle annisgwyl newydd ac olaf i gael ein tywys gan Mankell i fyd Wallander.

Mae nofelau Wallander yn fwy na straeon ditectif da gan fod Henning Mankell ynddynt yn rhoi i ni olwg ar y ffordd y mae cymdeithas wedi newid yn Sweden dros y degawdau diwethaf. Roedd Mankell yn amlwg yn nofelydd a boenai'n fawr am bethau fel tyndra hiliol a phob math o gamdrin ar bobl a

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 665: Dydd Sul, 10 Ionawr, 2016

Blas newydd

welai yn Sweden ac yn Mozambique lle treuliai ran o bob blwyddyn. Os tawelwyd llais Mankell, o leiaf mae gen i sawl nofel arall o'i eiddo heb ei darllen hyd yma a rydd gyfle i mi ei glywed yn trafod eto rai o'r themau a welwyd yn straeon Wallander.

Bydd Mankell, fel awduron eraill gwell a salach nag ef ei hun, yn dal i lefaru mewn rhyw ffordd trwy ei waith ysgrifenedig, ymhell wedi iddo farw. Eleni, diolch i ymgyrch 'Beibl Byw' dan nawdd Gobaith i Gymru, Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chymdeithas Y Beibl, rhoddir mwy o sylw nag arfer i lyfr arall sy'n dal i lefaru flynyddoedd lawer wedi iddo gael ei ysgrifennu. Ar un wedd, llyfr a ysgrifennwyd gan lawer o wahanol bobl mewn sawl lle dros gyfnod hir yw'r Beibl. Ac eto, un awdur sydd iddo yn y pen draw gan mai Duw ei hun sy'n llefaru trwy bob rhan ohono. Ac oherwydd hynny, yn wahanol i bob llyfr arall, gellir dweud mai'r Beibl yw'r unig lyfr y mae'r awdur ei hun yn bresennol bob tro y caiff ei ddarllen gan ei fod, trwy ei Ysbryd Glân, yn dal i gymhwyso ei eiriau i bawb sy'n eu darllen.

Ym marn llawer, stori o ddirywiad fu hanes Cristnogaeth yng Nghymru yn ddiweddar. Ac eto byddwn i'n dadlau mai un peth sy'n amlwg yn well am Gristnogaeth Gymraeg ein dyddiau ni, o'i chymharu â'r hyn a welwyd am ganrif a mwy, yw bod iddi fwy o barch at Y Beibl fel Gair Duw. Eleni, boed i ni gael blas newydd ar y llyfr hwn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn yn Neiniolen am 2.00 o'r gloch yng ngofal yr aelodau.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dewi Morris, Porthmadog. Diolch yn fawr iddo am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Nhalybont nac yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Ionawr 15.

Cyfarfod Chwarter

Cynhaliwyd Pwyllgor Gwaith Cyfarfod Chwarter Gogledd Arfon yng nghapel Nant y Benglog ddydd Mawrth.

Trefnwyd y Cyfarfod Chwarter nesaf sydd i'w gynnal yng nghapel Salem, Llanbedr y Cennin am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ionawr 27.

Yn ystod y cyfarfod ceir trafodaeth dan arweiniad Ysgrifennydd y Cyfundeb, Mr Ifor Glyn Efans, fel rhan o Drafodaeth Fawr Undeb yr Annibynwyr. Dyma rai o'r cwestiynau y bydd Ifor yn eu codi.

Beth fydd y trefniadau addoli yn eglwysi Gogledd Arfon ymhen 5 mlynedd?

A fydd angen ystyried dwyieithrwydd o fewn cyfarfodydd arferol ein heglwysi a'r Cyfundeb?

Pa drefniadau a wnawn fel Cyfundeb a / neu eglwysi unigol ar gyfer Blwyddyn Beibl Byw?

A fydd angen i ni ystyried cyfuno eglwysi mewn rhai ardaloedd?

A ddylid troi adeiladau yn ganolfannau cymunedol yn ogystal ag addoldai?

Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r Cyfarfod Chwarter.

Llifogydd

Diolch yn fawr i bawb a fu'n brysur yn Nhalybont yn gofalu am y capel wedi'r llifogydd a gafwyd bythefnos yn ôl. Am yr eildro o fewn tair blynedd llifod y dwr i'r capel. Mae'r peiriannau dal i sychu'r adeilad ar hyn o bryd. Bydd angen gosod carpedi newydd ac unedau cegin newydd wedi sychu a glanhau'r capel a'r festri.

Ni fydd modd defnyddio'r capel am rai wythnosau. Ond yn ystod yr wythnos daeth gwahoddiad oddi wrth y Parchg John Mathews o Eglwys St. Cross yn Nhalybont i aelodau Bethlehem gynnal cyfarfodydd yn yr Eglwys honno neu'r Ysgoldy nes bydd modd i ni fynd nôl i'r capel.

Yn dilyn trafodaeth gyda rhai o aelodau Bethlehem penderfynwyd ymateb yn gadarnhaol ac yn ddiolchgar i'r cynnig.

Ac felly, o'r Sul nesaf (Ionawr 17) ymlaen byddwn yn cynnal ein hoedfaon am 2.00 o'r gloch yn Ysgoldy Maesygroes, Talybont, a hynny nes bydd y capel neu'r festri mewn trefn.

Trefn yr oedfaon hyd ddiwedd y mis fydd:

Ionawr 17: Y Parchg. W. H. Pritchard, Trearddur.

Ionawr 24: Y Gweinidog.

Ionawr 31: Y Canon Idris Tomos, Deiniolen.

beibl.net

Cofiwch fod gennym yn yr Ofalaeth gopïau o **beibl.net** i'w cael am £10 yn lle £15. Rhowch wybod i mi os ydych eisiau copi.

Anfonwch e-bost os medrwch i john.cilfynydd@btinternet.com; neu os na fedrwch wneud hynny ffoniwch 01286 872390.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Thomas John Roberts, 83 Maes Padarn, Llanberis yn Eglwys Sant Padarn ac Amlogfa Bangor ddydd Iau, Ionawr 7 dan arweiniad y Gweinidog. Cydymdeimlwn â'i bnod, Eileen a'u plant, Reg, Ronnie a Iona, a'r teulu cyfan yn eu colled fawr.

Cafwyd teyrngedau gan Mr Arwel Jones ac ar ran y teulu gan Reg. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Trefor Lewis a Marcus Robinson. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Soniwyd yn naturiol am gyfraniad Thomas John Roberts, neu 'Twm John' i gynifer o bobl, i fyd pêl droed yma yn Llanberis ac yng Ngogledd Cymru, yn arbennig ei waith gyda phêl droed plant ac ieuentid.

Bu'n aelod ffyddlon yn Capel Coch, ac fel y soniais yr wythnos ddiwethaf roedd ei groeso yng nghyntedd y capel i bawb a ddeuai i'r oedfa bob amser yn gynnes. Roedd wrth ei fodd yn yr oedfaon ac yng nghwmni ei gyd-aelodau yn Capel Coch. Roedd yn sgwrsiwr diddan ac yn amlwg yn adnabod pawb yn y capel a'r ardal. Bu'n gyfaill da i waith yr Arglwydd yn Capel Coch, ac er mor brysur a fu yn ei waith a chyda'i ddi-ddordebau dros y blynyddoedd roedd oedfa ac addoliad yn cael lle pwysig ganddo bob amser. Dim ond affiechyd a'i cadwodd yn ddiweddar rhag dal i fynychu'r oedfaon, ac er ei wendid roedd yn sôn mor ddiweddar â mis Rhagfyr am gael dod nôl i'r capel.

Gallwn ddiolch i Dduw am y gras a'i gwnaeth y cymeriad da, gonest a diragrith ag ydoedd. Diolchwn hefyd am bob nerth a chysur a'i cynhaliodd, yn arbennig yng nghanol y brofedigaeth fwyaf a brofodd pan laddwyd ei fab Raymond yn ystod Rhyfel Ynysoedd y Falklands. Heb os, cafodd groes fawr i'w chario, ond fe'i cariodd yn ddewr ac yn urddasol ryfeddol.